



ASTUDIAETH NEWYDD A ALL DRAWSNEWID CYFLEOEDD BYWYD PLANT MEWN GOFAL

Mae astudiaeth newydd sydd wedi'i chomisiynu gan y Gronfa Loteri Fawr heddiw yn bwriadu archwilio a datblygu ffyrdd newydd o drawsnewid cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc mewn gofal yng Nghymru dros y ddeng mlynedd nesaf. Gall yr astudiaeth hefyd baratoi'r ffordd ar gyfer buddsoddiad newydd o £5 miliwn a allai wella dyfodol plant sydd mewn gofal yng Nghymru yn ddramatig.

Dengys y ffigyrau diweddaraf fod bron **6,000** o blant mewn gofal yng Nghymru, cynnydd o **24%** dros y bum mlynedd ddiwethaf. Gan weithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr yn y maes o **Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd** a **Phrifysgol Abertawe**, mae **Plant yng Nghymru**, elusen sydd â'r nod o hyrwyddo lles plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, wedi ei gyhoeddi fel y partner arweiniol gan y **Gronfa Loteri Fawr (Y Gronfa)** i gyflwyno astudiaeth newydd arloesol.

Mae'r ymchwil diweddaraf yn dangos fod plant mewn gofal yn fwy tebygol na'r plentyn arferol i gael canlyniadau gwael yn cynnwys cyflawniadau addysgol gwael, cynnydd mewn tebygolrwydd o ddatblygu problemau iechyd meddwl ac o gymryd rhan mewn trosedd a chamdrin sylweddau ac o fod yn ddi-waith a digartref. Mae cyfran uchel o boblogaeth carchardai hefyd wedi cael profiad neu wedi bod drwy y system ofal. Er gwaethaf yr ystadegau gwael yma, mae rhai plant a gaiff eu gofalu amdanynt yn gwneud yn dda iawn a bydd y prosiect yma yn chwarae rhan wrth sicrhau fod pob plentyn a gaiff ofal yng Nghymru yn cael cefnogaeth hollbwysig i oresgyn eu sialensau mewn bywyd.

O'r astudiaeth, mae'r Gronfa yn gofyn i ymchwilwyr ddatblygu dau opsiwn ar gyfer prosiect pilot arfaethedig gwerth hyd at **£5 miliwn** dros 10 mlynedd a all wella'n ddramatig ganlyniadau a chyfleoedd bywyd cysylltiedig plant sydd mewn gofal yng Nghymru. Bydd y prosiect yn gweithio ag amrediad o fudd-ddeiliaid a bydd elfen ddysgu gryf ynghlwm ag ef.

Bydd yr astudiaeth, a gaiff ei chyflwyno i'r Gronfa Loteri Fawr ar ddiwedd y flwyddyn, yn casglu tystiolaeth gadarn ledled y DU a thramor i ddeall angen ac adnabod ymyraethau a chefnogaeth effeithiol. Yn ychwanegol i weithio â chynrychiolwyr allweddol o'r sector statudol, bydd Plant yng Nghymru a'i bartneriaid hefyd yn cydweithio ac amrywiaeth o fudd-ddeiliaid yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd yn cael eu gofalu amdanynt ar hyn o bryd neu sydd wedi cael eu gofalu amdanynt yn y gorffennol.

Gan amlinellu pwysigrwydd yr astudiaeth a'i botensial i gael effaith barhaus ar fywydau plant a phobl ifanc mewn gofal yng Nghymru, dywedodd **Cadeirydd y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru, Adrian Webb**: “Mae hwn yn astudiaeth bwysig ac rydym eisiau sicrhau y byddwn yn cymryd i ystyriaeth ddysgu sy'n bodoli eisoes wrth adeiladu ar arferion da ac yn croesawu arloesedd ble mae wedi ei seilio ar dystiolaeth gref.”

“Mae plant a phobl ifanc yn grŵp arbennig o fregus gan eu bod yn aml yn profi trawsnewidiadau lluosog a chymhleth. Er enghraifft, gallont newid gofalwyr maeth neu gartrefi gofal yn rheolaidd, yn arbennig os oes ganddynt anghenion emosiynol a seicolegol cymhleth nad ydynt yn cael eu hannerch yn iawn.”

Ychwanegodd: “Mae hwn yn gyfle euraidd i sefydliadau ar lawr gwlad gydweithio i daclo'r broblem yma. Mae ganddynt gwir gyfle i bosibl wneud gwir wahaniaeth positif i fywydau plant a phobl ifanc mewn gofal yng Nghymru.”

Dywedodd Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi i Blant yng Nghymru: “Rydym yn falch iawn o fod yn bartner arweiniol yn cydweithio gyda'r Gronfa Loteri Fawr a'n cydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe i ymgymryd â'r astudiaeth rychwantu yma i adnabod ffyrdd effeithiol i wella lles plant mewn gofal yng Nghymru. Mae nifer fawr o storiâu llwyddiant i'w dathlu gyda rhai pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cyflawni canlyniadau positif a symud ymlaen i gyflawni llawer iawn mwy mewn bywyd. Er hynny dengys y ffigyrau nad yw nifer o blant mewn gofal yn llwyddo fel y byddem yn dymuno. Drwy adnabod ymyraethau sydd wedi profi i weithio, gobeithiwn y bydd unrhyw arian a fydd ar gael yn y dyfodol yn cael ei wario ar ddatrysiadau sy'n helpu plant mewn gofal i gyrraedd eu llawn botensial.”

Plant a phobl ifanc mewn gofal - Y ffeithiau ar gyfer Cymru:

- Yn y flwyddyn a ddaeth i ben **31 Mawrth 2013, roedd 5,743** o blant wedi'u dosbarthu fel 'derbyn gofal' yng Nghymru, cynnydd o 0.3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o **24%** dros y pum mlynedd flaenorol. Roedd y mwyafrif (**4,440**) mewn lleoliadau gofal maeth ac roedd 10% o'r plant wedi bod mewn tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn.
- Y rheswm mwyaf cyffredin (**60%**) dros blant yn mynd i ofal yn 2012 oedd esgeulustod neu gam-drin.
- Tra roedd cyraeddiadau addysgiadol yn gwella dros y flwyddyn flaenorol, dim ond 9% o ofalwyr gofal 16 oed neu hŷn oedd yn ennill 5 TGAU neu fwy gyda graddau o A* i C.

Cyhoeddiad Astudiaeth Plant mewn Gofal 3

- Yr ardaloedd awdurdod lleol gyda'r niferoedd uchaf o blant mewn gofal yw Abertawe (**588**), Rhondda Cynon Taf (**621**), Caerdydd (**557**) a Chastell Nedd Port (**492**). Mae'r niferoedd isaf yn Ynys Môn (80), Sir Fynwy (75) a Cheredigion (75).

Yn 2009/10, roedd plant oedd yn cael eu gofalu amdanynt a dderbyniodd gwnsela gan **ChildLine** UK yn bum gwaith mwy tebygol na phlant a dderbyniodd gwnsela gan Childline yn gyffredinol i drafod rhedeg i ffwrdd ac roeddynt ddwywaith yn debygol i drafod hunan niweidio. **2***

Mae gwybodaeth bellach am ein hymchwil ar gael ar dudalennau Ymchwil a Dysgu ein gwefan yn: www.cronfaloterifawr.org.uk

Am wybodaeth bellach am Blant yng Nghymru a'u gwaith ymchwil, ewch i www.plantynghnghymru.org.uk

Ffynonellau / Llyfryddiaeth:

1. Ffynhonnell: : <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130926-adoptions-outcomes-placements-children-looked-after-local-authorities-2012-13-en.pdf>
2. Adroddiad yr NSPCC ar farn a phrofiadau plant mewn gofal a fu mewn cyswllt â Childline

Diwedd//

Gwybodaeth bellach:

Oswyn Hughes – Swyddfa Wasg Cronfa Loteri Fawr: 02920 678 207

Cyswllt tu allan i Oriau Swyddfa : 07760 171 431

Llinell Ymholiadau Cyhoeddus: 0300 123 0735

Ffôn testun: 0845 6021 659

Mae manylion llawn rhaglenni a dyfarniadau grant y Gronfa Loteri Fawr ar gael yn:
www.cronfaloterifawr.org.uk

Dilynwch y Gronfa ar Twitter: www.twitter.com/biglotterywales

Dewch o hyd i'r Gronfa ar facebook: www.facebook.com/biglotteryfundwales

Nodiadau i Olygyddion

- Yng Nghymru mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu bron £100,000 y diwrnod mewn arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da, sy'n golygu, ynghyd â dosbarthwyr eraill y Loteri, bod y rhan fwyaf o bobl ar draws Cymru o fewn ychydig filltiroedd i brosiect a ariennir gan y Loteri.
- Mae'r Gronfa Loteri Fawr, dosbarthwr mwyaf y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da, wedi bod yn dosbarthu grantiau i feysydd addysg a'r amgylchedd ac achosion elusennol ers iddi ddod i fodolaeth ym mis Mehefin 2004. Fe'i sefydlwyd gan Senedd y DU ar 1 Rhagfyr 2006.
- Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994, mae 28c o bob punt sy'n cael ei gwario gan y cyhoedd wedi mynd i achosion da. O ganlyniad i hyn mae dros £30 biliwn wedi'i godi a mwy na 400,000 o grantiau wedi'u dyfarnu ar draws meysydd y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth, elusennau, iechyd, addysg a'r amgylchedd.

**Diwedd//
Cyhoeddwyd:
WPN: 13-09-02**